# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 2

PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

## PENNOD 1

Y PŴER CYFFREDINOL

### 27 Cyfyngiadau ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer y pŵer cyffredinol

(1) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymhwysol wneud pethau at ddiben masnachol onid ydynt yn bethau y caiff yr awdurdod, wrth arfer y pŵer cyffredinol, eu gwneud heblaw at ddiben masnachol.

(2) Pan fo awdurdod lleol cymhwysol, wrth arfer y pŵer cyffredinol, yn gwneud pethau at ddiben masnachol, rhaid i'r awdurdod eu gwneud drwy gyfrwng cwmni.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol cymhwysol, wrth arfer y pŵer cyffredinol, wneud pethau at ddiben masnachol mewn perthynas â pherson os yw unrhyw ddeddfiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud y pethau hynny mewn perthynas â'r person.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "cwmni" yw—

(a) cwmni o fewn ystyr adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (p. 46), neu

(b) cymdeithas gofrestredig o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 (p. 14) neu Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol (Gogledd Iwerddon) 1969 (p. 24 (GI)).

(5) Rhaid i awdurdod lleol cymhwysol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â gwneud pethau, wrth arfer y pŵer cyffredinol, at ddiben masnachol.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 27. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 27 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 175(7)**

**I2** A. 27 mewn grym ar 1.11.2021 gan O.S. 2021/231, **ergl. 4(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Adran 27.